

Tir ar Werth

Tir y tu cefn i 54 Amherst Crescent, Y Barri CF62 5UQ



Disgrifiad	Rhan o ardal barcio y tu cefn i 54 Amherst Crescent, Y Barri. Mae'r tir mewn rhan breswyl o Ynys y Barri. Fe'i dangosir gyda ffin goch yn y cynllun sydd wedi ei atodi, ac mae o faint rhyw ddau le parcio a hanner.
Arwynebedd	Tua 40 metr sgwâr
Daliadaeth	Mae'r tir yn cael ei werthu'n wag ac ar rydd-ddaliad.
Ystyried	Ystyrir cynigion yn unol ag amodau cyflwyno cynigion.
Indemniad	Pan fo'r gwerthiant wedi ei gwblhau, bydd y prynwr yn derbyn holl fudd, atebolrwydd a namau y darn tir ac yn indemnio'r gwerthwr yn erbyn pob hawliad yn y dyfodol o ran y tri dan sylw, ac yn parhau i'w indemnio.
TAW	Wedi ei eithrio o TAW.
Ffiniau	Bydd y prynwr yn gyfrifol am godi ffensys newydd ar hyd A-B a B-C y ffiniau, a'u cynnal a chadw.



Cyfyngiadau ar Ddefnydd Dim ond ar gyfer parcio ar gyfer preswylfa breifat y bydd y tir yn cael ei ddefnyddio. Bydd gwerthu'r tir yn destun cyfamod cyfyngu a chymal adfachu am unrhyw newid mewn defnydd.

Cynllunio Y prynwr fydd yn gyfrifol am unrhyw geisiadau newid defnydd sydd eu hangen a'r costau ynghlwm wrth y rheiny.

Costau Y prynwr fydd yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor ac unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol.

Dull Gwerthu Mae'r tir ar werth drwy dendr anffurfiol ar sail y termau ac amodau sydd wedi eu hatodi.
Dylid cyflwyno tendrau yn y modd a ragnodwyd a'u dychwelyd at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU yn yr amlen dendr swyddogol erbyn 12 pm **8 Ebrill 2019**.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag: Angela Bailey

Adran Ystadau,

Cyngor Bro Morgannwg,

Swyddfeydd Dinesig,

Heol Holltwn,

Y Barri, CF63 4RT.

Ffôn: 01446 709756

E-bost: ambailey@valeofglamorgan.gov.uk

Deddf Camgyflead

Cynigir yr eiddo hwn yn amodol ar gytundeb, ac ar sail heb ragfarn.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir, ac nid yw wedi ei rwymo i ddewis y cynnig uchod, nac unrhyw gynnig am yr eiddo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, ond ni all y Cyngor dderbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl am unrhyw gamgyflead yn y manylion hyn, yn ysgrifenedig neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti â diddordeb ei fodloni ei hun ynghylch cywirdeb y manylion hyn. Cyflwynir y manylion hyn fel canllaw cyffredinol yn unig, ac nid ydynt yn rhan o unrhyw gynnig na chontract.